A Côd Gorfodaeth a Mesur Perfformiad

- **Esbonio Côd Gorfodaeth yr Arolygiaeth.**
- **Manylu ynglŷn â thargedau perfformiad y Côd.**
- **Dangos i ba raddau y cyrhaeddwyd y targedau.**

Diffinio Rôl yr Arolygiaeth a Mesur Perfformiad

- Mae'r **Côd Gorfodaeth** (Y Côd) yn esbonio'r lefel o wasanaeth y gall cwmnïau dŵr a'r cyhoedd ei ddisgwyl gan yr Arolygiaeth.
- Mae'n manylu ar swyddogaethau rheoliadol yr Arolygiaeth a'r ffordd y mae'r swyddogaethau hynny a gweithgareddau perthnasol yn cael eu gweithredu.
- Mae'n gosod terfynau amser a disgwylir i'r Arolygiaeth geisio cwblhau y prif dasgau o fewn yr amser hwn.
- Gellir mesur perfformiad blynyddol yr Arolygiaeth drwy astudio ei allu i gyrraedd y terfynau amser hyn.
- Cyhoeddwyd fersiwn diweddara'r Côd ym mis Hydref 2000. Gellir ei weld ar wefan yr Arolygiaeth.

Perfformiad yn 2001

- Yn gyffredinol, aseswyd perfformiad pob tasg oedd i'w gwblhau o fewn 2001 ond fe aseswyd rhai tasgau cyfredol a oedd i'w cwblhau erbyn dechrau 2002 hefyd.
- Mae'r tabl canlynol yn disgrifo'r targedau ac yn dangos i ba raddau y llwyddodd yr Arolygiaeth eu cyrraedd.

Archwiliadau i Gwynion Ynglŷn â'r Arolygiaeth

- Os derbynnir cwyn ffurfiol ynglŷn â'r ffordd y mae'r Arolygiaeth wedi delio ag un o'r tasgau hyn, bydd y Prif Arolygydd neu'r Dirprwy Brif Arolygydd yn cynnal archwiliad.
- Derbyniwyd un gŵyn o'r fath yn ystod 2001, ac ymchwiliwyd iddo gan ddilyn ein dulliau gweithredu mewnol. Ceisiwyd cyngor cyfreithiol fel rhan o'r ymchwiliad i'r gŵyn ac o ganlyniad bu oedi annerbyniol yn ein cyfathrebiad gyda'r achwynwr. Adolygwyd ein dulliau gweithredu o ganlyniad. Yn anffodus, ni fu hi'n bosib sicrhau canlyniad boddhaol i'r achwynwr ac fe gynhaliwyd adolygiad pellach gan Adran Diogelu'r Amgylchedd Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn ymateb i gais gan yr Ombwdsman Gweinyddol Cymreig. Mae'r gŵyn yn parhau i gael el ystyried.

Perfformiad yn erbyn targedau Côd Gorfodaeth yn ystod 2001

TASG	TARGED	PERFFORMIAD
Anfon llythyron yn hysbysu ystyriaeth i weithredu'n orfodol o ganlyniad i archwiliadau 2001	I'w hanfon i'r cwmni o fewn pedair wythnos wedi'r archwiliad.	Ddim yn berthnasol i 2001
Paratoi adroddiadau drafft archwiliadau 2001	I'w hanfon am ymateb at y cwmni o fewn pedair wythnos wedi'r archwiliad neu wedi derbyn gwybodaeth bellach.	40%
Paratoi adroddiadau terfynol archwiliadau 2001	I'w hanfon i'r cwmni o fewn pedair wythnos o dderbyn yr ymateb.	75%
Asesiad rhagarweiniol o ymateb cydymffurfio misol	I'w anfon o fewn pedair wythnos wedi derbyn y data terfynol gan y cwmni.	100%
Asesiad rhagarweiniol o ddata cydymffurfio blynyddol 2001	I'w anfon o fewn pedair wythnos o'r amser y derbynia'r Arolygydd y ffeiliau data wedi eu prosesu.	100%
Anfon llythyron yn hysbysu ystyriaeth i weithredu'n orfodol yn dilyn yr asesiad cydymffurfio misol a blynyddol	I'w anfon at y cwmni o fewn pedair wythnos wedi eu hymateb i'r asesiadau rhagarweiniol.	100%
Prosesu a delio gyda cheisiadau am ymrwymiadau	I'w cwblhau o fewn pedair wythnos o'r adeg y'u derbynnir.	100%
Prosesu a delio gyda cheisiadau am awdurdodiadau pwynt cyflenwi	I'w gwblhau o fewn pedair wythnos o'r adeg y'u derbynnir.	Ddim yn berthnasol i 2001
Adolygu lleddfiadau sydd mewn bodolaeth	I'w diddymu neu eu hailgyhoeddi fel bo'n briodol.	Ddim yn berthnasol i 2001
Asesu digwyddiadau ansawdd dŵr yfed	I'w cwblhau o fewn tri mis wedi derbyn yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdano.	72.3%
Anfon llythyron yn hysbysu ystyriaeth i weithredu'n orfodol yn dilyn asesiadau digwyddiadau dŵr yfed	I'w hanfon o fewn tri mis wedi derbyn yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdano.	100%
Ymchwilio i gwynion am ansawdd dŵr	I'w cwblhau o fewn tair wythnos wedi derbyn yr holl wybodaeth y gofynnwyd amdano.	55%
Delio gyda cheisiadau cymeradwyo cemegion a deunyddiau	Pan fo angen, trefnu cyfarfodydd o fewn pedair wythnos. Darparu gwybodaeth ar y datblygiad a wnaed yng nghyfarfodydd y Pwyllgor o fewn pythefnos.	100%
Ymateb i bob ymholiad cyffredinol	Rhaid ymateb o fewn tair wythnos o'r adeg y derbynnir yr ymholiad.	100%

B Archwiliad Technegol Cwmnïau Dŵr

- **Disgrifio proses yr archwiliad technegol sy'n gwirio bod cwmnïau dŵr wedi cydymffurfio â'r Rheoliadau Ansawdd Dŵr Yfed oedd mewn grym yn ystod y flwyddyn 2001.**

Y Broses Archwiliad Technegol

❑ Bydd yr Arolygiaeth yn gwneud archwiliadau technegol er mwyn gwirio bod cwmnïau dŵr yn cydymffurfio â'u goblygiadau statudol. Mae'r broses archwilio hefyd yn galluogi'r Arolygiaeth i sicrhau bod cwmnïau'n gweithredu arfer da. Mae'r broses yn cynnwys tair elfen:

Asesiad blynyddol	– Gwirio ansawdd y dŵr a gyflenwir drwy gydol y flwyddyn, ar sail gwybodaeth ddadansoddol a ddarperir gan y cwmnïau dŵr. – Gwirio bod cwmnïau yn cyrraedd eu hamcanion o ran cynlluniau samplo a chynlluniau gwelliant
Arolygiad	– Arolygiadau archwiliad o weithgarwch gwahanol ar gyfer pob cwmni dŵr, sy'n berthnasol i unrhyw un o'u dyletswyddau cyflenwi dŵr sy'n ymwneud ag ansawdd
Gwirio dros dro	– Gwirio rhai agweddau o gydymffurfiaeth, wedi eu seilio ar wybodaeth a ddarperir gan gwmnïau o bryd i'w gilydd.

❑ Addasir pob arolygiad ar gyfer pob cwmni dŵr. Mae'r broses hon yn un barhaus, ac fe adolygir pob un o'r tasgau. Arolygir pob cwmni ar nifer o bynciau penodol.

❑ Wedi pob adolygiad, mae'r cwmni'n cael adroddiad canlyniadau. Mae'r Arolygiaeth yn troi at ddefnyddio rhestrau gwirio manwl ar gyfer pynciau arolwg, fydd yn medru cael eu cwblhau a'u printio ar ddiwedd pob arolygiad. Mae'r dull yma'n un effeithiol ac effeithlon o hysbysu'r cwmni am ganlyniadau'r arolwg.

❑ Mae pob adroddiad arolwg yn crynhoi'r canlyniadau, ynghyd â'r prif gasgliadau ac unrhyw argymhellion. Gwneir argymhellion pan fo, ym marn yr Arolygydd, perygl bod y cwmni am dorri dyletswydd rheoliadol. Os yw hyn yn digwydd, yna mae'n bosib y bydd gweithredu gorfodol yn cael ei ystyried. Gall yr Arolygwyr hefyd wneud argymhellion i'r cwmni ar faterion sy'n ymwneud ag arfer da.

❑ Yn 2001, cynhaliwyd arolwg ym mhob un o'r 26 cwmni, trwy gynnal ymweliadau ac asesu gwybodaeth a dogfennau a ddarparwyd ganddynt. Gellir dod o hyd i grynodeb o adroddiadau arolwg, prif gasgliadau a gwybodaeth am dorri rheoliadau ac unrhyw weithredu gorfodol a ystyriwyd gan yr Arolygiaeth, yn adran 'Business and Technical' y wefan o dan 'Audit and Inspection'.

C Digwyddiadau sy'n Effeithio Ansawdd Dŵr

- **Ymchwilio digwyddiadau sy'n effeithio neu a allai effeithio ansawdd cyflenwadau dŵr yfed**
- **Dysgu gwersi a rhwystro digwyddiadau rhag digwydd eto.**
- **Cymryd y camau priodol yn erbyn cwmnïau dŵr.**
- **Cofnodwyd 32 digwyddiad yn ystod 2001.**

Mae'n ofynnol i Gwmnïau Dŵr hysbysu'r Arolygiaeth o unrhyw broblemau ansawdd dŵr

- Mae Cyfarwyddyd yr Ymgymerwyr Dŵr (Gwybodaeth) 1998 (y 'Cyfarwyddyd Gwybodaeth') yn mynnu bod pob cwmni yn hysbysu'r Arolygiaeth am bob digwyddiad sydd wedi effeithio neu a all effeithio ansawdd dŵr yfed, neu ddigonedd cyflenwadau, lle gall fod perygl i iechyd y defnyddiwr.
- Gofynnir i gwmnïau hysbysu'r Arolygiaeth cyn gynted â phosib o unrhyw ddigwyddiadau sydd, yn eu tyb hwy, yn cwrdd â'r criteria nodir yn y Cyfarwyddyd Gwybodaeth.
- Mae Llythyr Gwybodaeth yr ADY 13/99 yn cynnig arweiniad pellach ar y criteria hyn.
- Rhaid cadarnhau unrhyw ddigwyddiadau a hysbysir mewn ysgrifen o fewn 72 awr a rhaid darparu adroddiad llawn o fewn 30 diwrnod ar gyfer pob digwyddiad a ystyrir o ddifri gan yr Arolygiaeth.
- Annogir cwmnïau hefyd i hysbysu'r Arolygiaeth o ddigwyddiadau nad ydynt yn cwrdd â'r criteria, ond a allai effeithio ar ansawdd dŵr neu achosi pryder i'r defnyddwyr.
- Mae achlysuron ansawdd dŵr yn cael eu dosbarthu yn ôl y diffiniadau canlynol:

Achlysur
Unrhyw ddigwyddiad sydd wrth natur yn gofyn i gael ei nodi dan y Cyfarwyddyd Gwybodaeth. Rhaid i gwmnïau dŵr farnu hyn o dan yr amgylchiadau.

Digwyddiad
Is-restr o achlysuron a ddiffinir gan yr Arolygiaeth i gynnwys:

– torri Rhan II y Rheoliadau mewn modd difrifol ac annisgwyl; neu

– torri rhan VI o'r Rheoliadau; neu

– dirywiad anarferol yn ansawdd y dŵr; neu

– risg sylweddol i iechyd defnyddwyr; neu

– newidiadau anffafriol yn ansawdd y dŵr sydd yn ôl y defnyddwyr yn sylweddol; neu

– achos dros ddiddordeb sylweddol gan y cyfryngau.

Arall
Unrhyw achlysuron arall a nodir nad ydynt yn ddigwyddiadau.

- Gellir dod o hyd i fersiwn llawn y Cyfarwyddyd Ymgymerwyr Dŵr (Gwybodaeth) 1998 (a gynhwysir yn Llythyr Gwybodaeth yr ADY 4/98) a Llythyr Gwybodaeth yr ADY 13/99 ar y wefan www.dwi.gov.uk (edrychwch ar y rhestr A-Z o dan 'Llythyron Gwybodaeth Cyfredol' neu os ydych yn darllen hwn ar y we cliciwch ar y linciau 'Cyfarwyddyd Gwybodaeth' a 'Llythyr Gwybodaeth').

Mae'r Arolygiaeth yn asesu pob digwyddiad, a bydd yn gweithredu'n erbyn cwmnïau dŵr os bydd angen

- **Yr Asesiad** – Bydd Arolygwyr yn asesu adroddiad 72 awr y cwmni dŵr er mwyn penderfynu os yw achlysur yn ddigwyddiad. Os credir bod yr achlysur yn ddigwyddiad, efallai y bydd angen adroddiad 30 diwrnod hefyd. Bydd yr Arolygwr yn asesu'r holl wybodaeth sydd ar gael er mwyn penderfynu:
  - beth achosodd y broblem ac a ellid fod wedi ei osgoi;
  - sut wnaeth y cwmni ymateb a delio gyda'r digwyddiad;
  - pa wersi ellid eu dysgu er mwyn rhwystro digwyddiad tebyg yn y dyfodol;
  - a dorrwyd unrhyw rheoliadau gorfodol: a
  - a gyflenwodd y cwmni ddŵr nad oedd yn ddiogel i'w yfed.
- **Y Canlyniad** – Mae'r tabl hwn sy'n crynhoi canlyniadau arferol yr asesiadau wedi ei seilio ar ddifrifoldeb y broblem a beth a wnaed o ganlyniad.

Canlyniad yr Asesiad	Gweithrediad
Ni thorrwyd y rheoliadau. Fe wnaeth y cwmni ymddwyn yn briodol wrth ymateb i'r broblem.	Anfonir llythyr asesu i'r cwmni gyda chopïau at Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau iechyd perthnasol yn lleol a rhanbarthol ac i OFWAT os yn briodol.
Torri'r rheoliadau a/neu ddiffyg yn yr ymateb.	Anfonir llythyr asesu i'r cwmni sy'n cynnwys **argymhellion** ynglŷn â'r dull gweithredu y mae'n *rhaid* i'r cwmni ei ddilyn i ddatrys problemau a ddaeth yn amlwg drwy'r digwyddiad. Hysbysir Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau iechyd perthnasol yn lleol ac yn rhanbarthol ac OFWAT o'r canlyniad, fel bo'n briodol.
Methiant sylweddol neu methiant dro ar ôl tro i gadw at reoliadau gorfodol.	Cychwynnir ar broses o **weithredu gorfodol** yn erbyn y cwmni. Proses gyfreithiol i sicrhau bod y cwmni yn cymryd y camau angenrheidiol i rwystro problemau tebyg yn y dyfodol. Hysbysir Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau iechyd perthnasol yn lleol ac yn rhanbarthol ac OFWAT o'r canlyniad, fel bo'n briodol.
Cyflenwi dŵr nad oedd yn addas i'w yfed o ganlyniad i ddiffyg yn ymateb y cwmni neu fethiant yn ei ddulliau gweithredu.	Cychwynnir ar broses o naill ai **erlyniad** neu gyflwyno **rhybudd ffurfiol** yn erbyn y cwmni am gyflawni trosedd. Hysbysir Llywodraeth Cynulliad Cymru, awdurdodau iechyd perthnasol yn lleol ac yn rhanbarthol ac OFWAT o'r canlyniad, fel bo'n briodol.

- Gellir cael mwy o fanylion ynglŷn â'r broses asesu ar y wefan www.dwi.gov.uk Mae'n cynnwys llif-ddiagram sy'n dangos y broses a'r terfynau amser sy'n berthnasol i'r ffordd y mae cwmnïau dŵr a'r Arolygiaeth yn gweithredu'r rheolaeth digwyddiadau.

Manylion digwyddiadau a nodwyd ac asesiadau yn ystod 2001

- Gellir gweld disgrifiadau bras o bob digwyddiad yn yr adrannau perthnasol o fewn y pennodau am y cwmnïau unigol yn Rhan 2 yr adroddiad hwn. Hysbyswyd yr Arolygiaeth o 16 digwyddiad yn ystod 2001 a effeithiodd neu a allai effeithio ansawdd y dŵr a gyflenwyd i tua 600,000 o ddefnyddwyr yng Nghymru. 'Roedd y cyfnod pan nad oedd ansawdd y dŵr ar ei orau yn amrywio o ychydig oriau i nifer o ddyddiau. Yn ogystal, hysbyswyd yr Arolygiaeth o 16 achlysur na ddisgrifiwyd fel digwyddiadau.
- Mae'r Arolygiaeth yn anelu at gwblhau ei asesiadau o fewn tri mis o'r hysbysiad. Felly gall digwyddiadau a gaiff eu cofnodi tua diwedd y flwyddyn galendr gael eu hasesu yn ystod y flwyddyn ganlynol. Os ystyrir erlyniad, ni fydd yr asesiad yn cael ei gwblhau tan i'r broses honno ddod i ben. Felly ar 31 Mawrth 2002, mae cyfanswm o bump (dau o 2001 a thri cyn hynny) asesiad yn gyfredol.
- Mae'r tabl canlynol yn crynhoi safle'r Arolygiaeth ar 31 Mawrth 2002 o ran asesu'r digwyddiadau a'r achlysuron na ystyriwyd yn ddigwyddiadau gafodd eu cofnodi dan y Cyfarwyddyd Gwybodaeth.

Digwyddiadau a nodwyd yn 2001:	**16**
Achlysuron nad oeddent yn ddigwyddiadau a nodwyd yn 2001:	**16**
Cyfanswm yr achlysuron yn 2001	**32**

Achlysuron 2001 a Aseswyd:	**30**
Dim angen gweithredu:	25
Argymhellion:	5
Gweithredu gorfodol:	0
Rhybudd:	0
Erlyniadau:	0
Achlysuron cyn-2001 a aseswyd yn 2001:	**2**
Dim angen gweithredu:	0
Argymhellion:	1
Gweithredu gorfodol:	0
Rhybudd:	0
Erlyniadau:	1
Cyfanswm yr Asesiadau a gwblhawyd yn 2001	**32**

Asesiadau cyfredol 2001:	**2**
Asesiadau cyfredol cyn-2001:	**3**
Cyfanswm yr Asesiadau cyfredol	**5**

- Dosberthir digwyddiadau yn ôl natur, dechreuad ac effaith y broblem. Mae'r siart isod yn cynnig esboniad a chymariaeth bedair blynedd (1998 – 2001) o ddosbarthiadau'r digwyddiadau.



- Mae'r cyfanswm o hysbysiadau a wnaed i'r Arolygiaeth yn ystod 2001 wedi cynnal y cynnydd graddol sydd wedi digwydd ers 1998. Mae hyn o ganlyniad i well trefniadau ar gyfer, ac arweiniad ar, gofnodi digwyddiadau sylweddol. Mae'r nifer o hysbysiadau a ystyriwyd fel digwyddiadau yn 2001 wedi aros o gwmpas yr un lefel â'r tair mlynedd ddiwethaf.
- Dylid nodi yn sgîl cwblhau asesiad yr Arolygiaeth bod rhai achlysuron a gyfeiriwyd atynt fel digwyddiadau yn wreiddiol yn cael eu hystyried wedi'r asesiad fel achlysuron na ddylid gael eu galw'n ddigwyddiadau – ac i'r gwrthwyneb.



Cwmnïau a erlynwyd neu a rybuddiwyd am gyflenwi dŵr nad oedd yn addas i'w yfed

- Cyflawnodd yr Arolygiaeth erlyniad llwyddiannus yn erbyn Dŵr Cymru yn ystod cyfnod yr adroddiad. 'Roedd yr achos yn ymwneud â digwyddiad lle cyflenwyd dŵr â lliw arno ym Merthyr Tudful yn ystod Gorffennaf 2000. Cafodd y Cwmni ddirwy o £12,000 a rhaid oedd talu £5,777 mewn costau.
- Mae'r tabl canlynol yn nodi nifer yr erlyniadau a'r rhybuddion sydd wedi eu cyflwyno yn dilyn archwiliadau'r Arolygiaeth o ddigwyddiadau rhwng 1998 a 2001. Mae hefyd yn dangos nifer o achosion llys lle nad oes penderfyniad wedi ei wneud eto a nifer o ddigwyddiadau sy'n dal i gael eu hystyried ar 31 Mawrth 2002. Wrth astudio'r tabl, rhaid cofio'r canlynol:
  - Gall y nifer o ddigwyddiadau fod yn gyfrannol yn ôl maint y cwmni dŵr, ac yn arbennig hyd y system ddosbarthu;
  - Ni chynhwysir cwmni heb ddigwyddiadau yn y categorïau yma yn y tabl;
  - Mae sawl un o'r digwyddiadau yn ddibwys a nifer fach o ddefnyddwyr sy'n cael eu heffeithio;
  - Mae sawl un o'r digwyddiadau yn digwydd am resymau y tu hwnt i reolaeth y cwmnïau dŵr e.e pibell wedi byrstio;
  - Gall achosion o erlyniad gymryd hyd at flwyddyn i gyrraedd y llys ac felly nid yw'n dilyn ei fod yn adlewyrchu'r gwir ddarlun.

Digwyddiadau ac Erlyniadau Cwmnïau Dŵr 1998 – 2001

Cwmni Dŵr	Poblogaeth a Gyflenwir	Cilomedrau o bibellau	Nifer y digwyddiadau a hysbyswyd mewn blwyddyn				Erlyniadau (rhybuddion) a gwblhawyd mewn blwyddyn				Achosion yn aros achos llys 31/03/01	Digwydd-iadau sy'n dal i gael eu hymchwilio 31/03/01 ([+] cyn-2001)
			1998	1999	2000	2001	1998	1999	2000	2001		
Albion	300	N/a	–	–	–	–	–	–	–	–	0	0
Dee Valley	257,100	1,953	1	1	0	1	–	–	–	–	0	0
Dŵr Cymru	2,800,000	24,900	10	9	11	15	3	–	–	1	0	2[+3]
Severn Trent	52,800	363	–	–	–	–	–	–	–	–	0	0
CYFANSWM	**3,109,900**	**27,216**	**11**	**10**	**11**	**16**	**3 (0)**	**0 (0)**	**0 (0)**	**1 (0)**	**0**	**2[+3]**

CH Ymholiadau & Chwynion Defnyddwyr

- **Disgrifio'r ffordd mae'r Arolygiaeth yn delio gydag ymholiadau cyffredinol oddi wrth ddefnyddwyr, cyrff a busnesau.**
- **Disgrifio cwynion am ansawdd dŵr gan ddefnyddwyr a chyrff sy'n cynrychioli defnyddwyr.**
- **Cofnodi i ba raddau y cyrhaeddwyd targedau'r Côd Gorfodaeth wrth ymateb.**

Cyffredinol

- Mae'r Arolygiaeth yn derbyn llawer o ymholiadau yn ymwneud ag ansawdd dŵr yfed gan y cyhoedd, busnesau a grwpiau perthnasol eraill. Er mwyn darparu gwasanaeth effeithlon i ddelio â'r ymholiadau hyn, mae'r Arolygiaeth wedi datblygu uned ymateb sy'n medru ateb y rhan fwyaf o'r cwestiynau sylfaenol. Bydd cwestiynau anoddach neu mwy technegol eu naws yn cael eu cyfeirio at Arolygydd priodol.
- Defnyddir dull tebyg wrth ymdrin â chwynion defnyddwyr am ansawdd dŵr yfed.
- Mae'r Côd Gorfodaeth yn gosod targed i'r Arolygiaeth ymateb i bob un o'r ymholiadau cyffredinol a chwynion uniongyrchol defnyddwyr, beth bynnag fo'u tarddiad, o fewn tair wythnos.

Ymholiadau

- Derbyniodd yr Arolygiaeth gyfanswm o 86 o ymholiadau gan ddefnyddwyr yn ystod 2001.
- Mae'r tabl isod yn dangos faint o ymholiadau a dderbyniwyd a sut y'u cofnodwyd. Mae'n dangos sut gwnaed yr ymholiad a'r nifer o ymatebion a gyrhaeddodd neu a fethodd gyrraedd y targed.

Ymholiadau Cyffredinol a dderbyniwyd gan yr Arolygiaeth yn ystod 2001

Dull Ymholi	Nifer a dderbyniwyd lle rhoddwyd ymateb o fewn 3 wythnos	Nifer a dderbyniwyd lle na rhoddwyd ymateb o fewn 3 wythnos	Cyfanswm	(% cyrraedd targed)
Ffôn	66	0	66	100%
Llythyr/Ffacs/E-Bost	20	0	20	100%
Cyfanswm	**86**	**0**	**86**	**100%**

- Derbynir ymholiadau ar sawl testun gan gynnwys y canlynol:

Dŵr Potel
Clorin, arogl a blas
Cryptosporidium
Dŵr â lliw arno
Gwefan yr ADY
Fflŵorid mewn dŵr yfed
Gwybodaeth gyffredinol am ddŵr
Gwybodaeth am gwmnïau dŵr yfed
Plwm mewn dŵr yfed
Nitradau mewn dŵr yfed
Plaladdwyr mewn dŵr yfed
Cyflenwadau dŵr preifat
Dŵr caled/meddal
Ffitiadau cyflenwad dŵr
Beth mae'r ADY yn ei wneud?
Eraill

- Mae taflenni ar gael ar y mwyafrif o'r testunau uchod; gellir cael copïau yn rhad ac am ddim oddi wrth yr Arolygiaeth neu gellir eu gweld ar y wefan: www.dwi.gov.uk

Cwynion Defnyddwyr

- Bydd y cwmnïau dŵr yn delio'n effeithiol â'r rhan fwyaf o'r cwynion, fel na fydd rhaid cyfeirio defnyddwyr at yr Arolygiaeth
- Yn 2001, fe ymchwiliodd yr Arolygiaeth i 38 o gwynion defnyddwyr am ansawdd dŵr yfed.
- Roedd y nifer uchaf o gwynion yn ymwneud â chyflenwad dŵr â lliw arno, a nifer helaeth hefyd yn cwyno am flas ac arogl.

Y math o gwynion a dderbyniwyd*



- Deliwyd â'r rhan fwyaf o gwynion gan yr Arolygiaeth a fyddai'n gofyn i'r cwmni dŵr perthnasol edrych mewn i'r mater a chymryd unrhyw gamau adferol angenrheidiol. Yn ogystal, lle bo'n briodol, byddai'r Arolygiaeth yn cynghori'r cwynwyr ynglŷn ag unrhyw gamau y gallen nhw gymryd eu hunain.
- Os oedd y defnyddiwr yn anfodlon ag ymateb y cwmni dŵr, byddai'r Arolygiaeth yn ymchwilio ymhellach. Mewn rhai achosion, gwnaed hyn mewn cydweithrediad ag adran iechyd yr amgylchedd.
- Parhaodd yr Arolygiaeth i gydweithio'n glos gyda 'Watervoice' (a arferai gael ei alw yn 'Pwyllgor Gwasanaeth Defnyddwyr') o Swyddfa Gwasanaethau Dŵr (OFWAT). Yn achlysurol, byddai 'Watervoice' yn cyfeirio cwynion at yr Arolygiaeth er mwyn iddyn nhw gynnal ymchwiliad.
- Gwnaed pob ymdrech i gwblhau'r archwiliadau o fewn amodau Côd Gorfodaeth yr Arolygiaeth. Er hyn, ni lwyddwyd i ymateb i 45% o'r cwynion mewn pryd – yn bennaf oherwydd cymhlethdod yr archwiliad neu oherwydd oedi oedd y tu hwnt i reolaeth yr Arolygiaeth.
- Mae'r Arolygiaeth hefyd yn derbyn nifer o alwadau oddi wrth gwynwyr sy'n cwyno dro ar ôl tro, ac nid yw hi'n bosib sefydlu sail eu cwyn na datrys y broblem.

D Gweithredu Gorfodol a Rhaglenni Gwelliant

- **Bydd yr Arolygiaeth yn cychwyn gweithredu gorfodol pan fydd cwmni yn methu â chyrraedd safon neu ddyletswydd rheoliadol arall, onibai fod y methiant yn cael ei ystyried yn un dibwys neu fod y cwmni'n medru dangos ei fod wedi cymryd camau i rwystro hyn rhag digwydd eto.**
- **Os yw hi'n debygol y bydd oedi cyn cwblhau y gwaith adferol, gall y cwmni roi ymrwymiad cyfreithiol i gynnal rhaglen welliant o fewn amser penodedig a gytunir gyda'r Arolygiaeth.**
- **Yn ystod 2001 ystyriodd yr Arolygiaeth weithredu gorfodol mewn pump achos lle methwyd â chyrraedd y safon neu reoliadau gorfodol eraill.**
- **Efallai bydd gofyn i gwmnïau dŵr gynnal rhaglenni gwelliant i gyrraedd safonau newydd neu safonau diwygiedig, er enghraifft y rhai hynny yn y Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) a ddaw i rym ddiwedd mis Rhagfyr 2003.**

Gweithredu Gorfodol

- Ystyried gweithredu gorfodol yw'r cam cyntaf mewn proses gyfreithiol a ddefnyddir gan yr Arolygiaeth er mwyn gwneud gwelliannau i ansawdd dŵr o ganlyniad i fethiant i gyrraedd rhan orfodol o'r Rheoliadau.
- Rhaid i'r cwmni fodloni'r Arolygiaeth ei fod wedi cymryd camau pwrpasol er mwyn rhwystro'r sefyllfa rhag digwydd eto, neu ddarparu ymrwymiad cyfreithiol i gymryd camau priodol i wneud hynny o fewn terfynau amser penodol.
- Os na ellir dangos bod camau o'r fath wedi eu cymryd neu eu bod wedi methu rhoi neu gadw at ymrwymiad, bydd y broses orfodol lawn yn cael ei weithredu'n syth. Bydd hyn y golygu ffurfio gorchymyn gorfodaeth yn erbyn y cwmni. Nifer bychan iawn o orchmynion gorfodaeth sydd wedi eu cyflwyno hyd yn hyn.
- Os yw amgylchiadau, y tu hwnt i reolaeth y cwmni yn golygu nad yw ymrwymiad yn briodol bellach, gall gynnig ymrwymiad newydd. Cyhoeddir pob ymrwymiad a gorchymyn gorfodaeth yn y papurau newydd lleol a gall unrhyw un gael gafael ar fanylion.

Rhaglenni Gwelliant

- 'Roedd saith rhaglen welliant ar waith ddechrau 2001. 'Roedd tair o'r rhain i gael eu cwblhau o fewn y flwyddyn a gwnaethpwyd hynny naill ai mewn pryd neu o flaen amser. 'Roedd rhaglenni eraill â chamau i gael eu cwblhau yn ystod 2001, a llwyddwyd i wneud hynny hefyd o fewn yr amser penodol.
- Derbyniwyd tri ymrwymiad yn ystod 2001, pob un yn ymwneud â gweithredu gorfodol a gychwynnwyd yn ystod y flwyddyn 2000. 'Roedd dau ar gyfer cynlluniau gwaredu *Cryptosporidium* ac roeddynt i gael eu cwblhau o fewn y flwyddyn. Cwblhawyd un mewn pryd ond bu ychydig o oedi ar y llall oherwydd cyfyngiadau Clwy'r Traed a'r Genau.

- Yn ogystal â'r uchod, mae gan ddau gwmni raglenni gwelliant i wella'u systemau dosbarthu. Mae'r rhaglenni yma'n cynnwys paramedrau megis haearn a manganîs, sy'n cael eu heffeithio gan gyflwr y pibellau.
- Bydd datblygiad y rhaglenni gwelliant yn cael ei fonitro, ei archwilio a'i gofnodi gan yr Arolygiaeth yn flynyddol.

Gweithredu Gorfodol a ystyriwyd yn ystod 2001

- Yn ystod 2001, ystyriwyd gweithredu gorfodol ar gyfer y canlynol:

Rheoliad 3(3)(c)	Pump paramedr mewn dau barth cyflenwi dŵr. (Cysylltwyd pedwar o'r rhain gyda digwyddiad)

DD Ymchwil Dŵr Yfed

- **Cysylltiad yr Arolygiaeth â'r Cynlluniau Ymchwil Dŵr Yfed.**
- **Crynodeb o'r astudiaethau ymchwil sydd wedi eu cwblhau.**
- **Manylion bras am y prosiectau ymchwil cyfredol.**

Cyffredinol

- Mae'r cynllun WDCQ yn cynorthwyo Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) a Llywodraeth Cynulliad Cymru i fformiwleiddio polisi ar ansawdd a rheoliad cyflenwadau dŵr.
- Yr Arolygiaeth sy'n rheoli cynllun ymchwil 'Dosbarthiad, Cadwraeth ac Ansawdd Dŵr' (WDCQ) y Bwrdd Dŵr (WD).
- Mae cynllun ymchwil y WD yn rhan o gynllun ymchwil 'Grwp Diogelu Amgylchedd' (EPG) DEFRA
- Mae'r cynllun hefyd yn galluogi'r Arolygiaeth i gyfrannu at faterion dŵr yfed rhyngwladol.

Gwybodaeth am Ymchwil WDCQ

- Dylai ymholiadau gael eu cyferio at: DWI Enquiries, 2/A2 Ashdown House, 123 Victoria Street, Llundain SW1E 6DE.
- Gellir gweld crynodebau gweithredol o adroddiadau ymchwil y WDCQ ac adroddiadau blaenorol ymchwil dŵr yfed Adran yr Amgylchedd ar wefan y 'Foundation for Water Research' (www.fwr.org). Cewch fanylion ar y wefan hon hefyd ynglŷn â sut i gael copïau o adroddiadau ymchwil.
- Dylid cyfeirio ymholiadau cyffredinol ynglŷn â'r cynllun EPG at: Ken Nulty, DEFRA, Zone 4/C2, Ashdown House, 123 Victoria Street, Llundain SW1E 6DE.

Prosiectau Ymchwil wedi eu cwblhau

Maes Ymchwil	Crynodeb o'r Prosiect	Contractwr
Cryptosporidium	**Casgliad cyfeirnodi cenedlaethol öosystau *Cryptosporidium*** Mae system cymryd olion bysedd molecwlaidd wedi ei ddatblygu sy'n defnyddio stilwyr genynnau i ddisgrifio wyneb öosystau. Mae data genoteip wedi ei gynhyrchu am bron i 5,000 o unigion dynol ac mae 40 o enoteipiau *Cryptosporidium* wedi eu darganfod. Mae potensial i'r system hon gael ei defnyddio i olrhain ffynonellau afiechydon a heintiau ysbeidiol ac fe'i defnyddir ar hyn o bryd gyda samplau a gesglir yn ystod astudiaethau epidemiolegol.	Scottish Centre for Infection and Environmental Health and the Public Health Laboratory Service

Prosiectau Ymchwil wedi eu cwblhau (parhad)

Maes Ymchwil	Crynodeb o'r Prosiect	Contractwr
Peryglon eraill i iechyd a Monitro	**Paramedrau rheoliadol i'r dyfodol** Mae'r prosiect hwn wedi adnabod paramedrau nad ydynt wedi eu cynnwys yn y fersiwn gyfredol o Rheoliadau Dŵr Yfed y DU, rhai a allai fod yn rhan o reoleiddio yn y dyfodol. Adolygodd yr adroddiad ffynonellau gwybodaeth rhyngwladol a gwneud cynigion am nifer o baramedrau cemegol a microbiolegol lle gall fod angen am fwy o wybodaeth ynglŷn â digwyddiadau a dosbarthiad.	Metcalf & Eddy (Warren Associates gynt) a CREH
	Ffawd y cymhlygyn *Mycobactrium avium* yn nhriniaeth dŵr yfed a systemau dosbarthiad Mae'r adroddiad hwn yn sôn am astudiaeth ar gyffredinrwydd y cymhlygyn *M.avium* (MAC) a *M. avium* var *paratuberculosis* (MAP) mewn dŵr yfadwy yn Lloegr. Datblygwyd dulliau i feithrin MAC a MAP o ddŵr yfed ac fe'u defnyddiwyd i ymchwilio pa mor aml oedd hyn yn digwydd, o chwe pwynt gwahanol mewn chwe system trin dŵr a dosbarthiad yn Lloegr, a gafodd eu dewis i gynrychioli ystod o gyflyrau ffynhonellau a thriniaeth. Profodd y methiant i ddod o hyd i unrhyw olion o MAP yn yr un sampl nad yw cyflenwadau dŵr cyhoeddus yn Lloegr wedi eu difwyno â lefelau uchel o MAP.	PHLS
	***Cryptosporidium* mewn cyflenwadau dŵr preifat** Cymerwyd samplau saith cwmni cyflenwi dŵr preifat o fewn y DU er mwyn edrych am ystod eang o ficro-organeddau yn cynnwys *Cryptosporidium*, *Giardia, Campylobacter* a *E coli* 0157 dros ddau gyfnod o chwech wythnos yn ystod 2000. Dangosodd y canlyniadau nad oes unrhyw broblemau microbiolegol mewn lleoliadau lle cynhelir arolygiadau glanweithiol a lle diogelir y cyflenwad dŵr. Bydd lleoliadau mewn ardaloedd gwledig lle nad oes rheolaeth dros ansawdd dŵr ffynhonnell nac unrhyw driniaeth dŵr yn cael cyfnodau o ddifwyniant microbiolegol uchel na fydd yn cael eu canfod trwy fonitro achlysurol. Ariannwyd y prosiect hwn ar y cyd gyda'r Gweithredydd Albanaidd ac Arolygiaeth Dŵr Yfed Gogledd Iwerddon.	CREH
Profi Defnyddiau a Chymeradwyaeth	**Cefnogaeth dechnegol ar gyfer Cytundeb Gweithdy CEN ar bilennau at drin dŵr yfed** Mae gwaith y gweithdy wedi ei gwblhau ac mae'r adroddiad yn cael ei brosesu fel mesur gan CEN "Water treatment membranes – influence of materials on water intended for human consumption – test method". Mae dulliau cymeradwyo defnyddiau a seiliwyd ar y dull hwn yn cael eu defnyddio yn y DU a Ffrainc ar hyn o bryd.	BSI a WRc
	Astudiaeth rhagarweiniol ar atgynyrchioldeb BS7766: 2001 Mae'r drafft BS7766:2001 yn diweddaru "Assessment of the potential for metallic materials to affect adversely the quality of water intended for human consumption: BS7766:1994". Comisiynwyd yr astudiaeth er mwyn darparu'r cyfraniad i ddisgrifiad astudiaeth rhyng-labordy fwy ar atgynyrchioldeb y fersiwn derfynol o'r mesur diwygiedig. (gweler ymchwil cyfredol)	ITS Testing & Certification Ltd

Prosiectau Ymchwil wedi eu cwblhau (parhad)

Maes Ymchwil	Crynodeb o'r Prosiect	Contractwr
Cyflenwad Dŵr o fewn Cartrefi Defnyddwyr	**Adolygiad o fesurau rhyngwladol ar ail-ddefnyddio dŵr llwyd** Mae CIRIA erbyn hyn wedi cyhoeddi adroddiadau terfynol defnyddio 'Dŵr glaw a dŵr llwyd mewn adeiladau – arweiniad at arfer da' a 'Defnyddio dŵr glaw a dŵr llwyd mewn adeiladau – gwneud penderfyniad am gadwraeth dŵr'. Gellir cael copïau o enquiries@ciria.org.uk	Construction Industry Research and Information Association
	Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ffitiadau Dŵr) – diweddaru disgrifiad rheolyddion Mae'r disgrifiad a ddatblygwyd o dan y deddfau lleol blaenorol wedi eu diweddaru. Cynigir ein bod yn dosbarthu y disgrifiad newydd drwy ei ddangos ar wefan y Cynllun Cynghori Rheoliadau Dŵr.	WRc

Ymchwil Cyfredol

Maes Ymchwil	Manylion Bras	Contractwr
Cryptosporidium	**Astudiaeth epidemiolegol Gorllewin Cumbria** Comisiynwyd yr astudiaeth gyfredol hon yn 1995. Ar hyn o bryd mae'n ymchwilio i'r posibiliad fod gwella prosesau trin dŵr yn cael dylanwad ar lefel yr achosion o cryptosoridiosis. Mae'r astudiaeth hefyd yn edrych os yw'r dull o osod y driniaeth yn mynd law yn llaw â unrhyw newidiadau yn statws *sero-prevalence* y boblogaeth.	Awdurdod Iechyd West Cumbria
	Effeithioldeb triniaeth uwchfioled ar *Cryptosporidium* mewn dŵr yfed Cymryd rhan mewn gwaith rhyngwladol sy'n mesur y defnydd o gelloedd tyfiant *Cryptosporidium* fel dangosydd dirprwyol o botensial am heintiad dynol. Bydd yr ymchwil hefyd yn asesu effeithiolrwydd uwchfioled yn yr achosion gwaethaf un o ansawdd dŵr tarddiad.	UK Water Industry Research Ltd
	Cynyddu'r wyliadwraeth am *Cryptosporidium* yn y DU Cychwynnodd yr astudiaeth hon yn 2000 a disgwylir yr adroddiad ar ddiwedd 2002. Mae'n ymchwilio i epidemioleg cryptosporidiosis achlysurol mewn dwy ran o'r DU yn ystod cyfnod gweithredu y rheoliadau newydd. Mae'n cynnwys astudiaeth achos ar reolaeth ac astudiaeth sero-epidemioleg ar raddfeydd heintiad. Ariannwyd ar y cyd gyda 'United Utilities'.	PHLS
Profi defnyddiau a chymeradwyo	**Dinoethiad i isomerau cloropropanol drwy bolyaminau** Mae dull dadansoddol yn cael ei ddatblygu i alluogi asesiad o ddinoethiad defnyddwyr i isomerau cloropropanol yn sgîl defnyddio clystyryddion polyamin yn y driniaeth o ddŵr yfed. Bydd yr astudiaeth hefyd yn asesu dinoethiad i isomerau cloropropanol mewn rhai gweithfeydd trin dŵr.	LGC (Teddington)

Ymchwil Cyfredol (parhad)

Maes Ymchwil	Manylion Bras	Contractwr
	Dibynadwyedd dulliau profi am gynhyrchion metalig Bydd astudiaeth rhyng-labordy sy'n cynnwys 3 labordy o'r DU yn asesu cryfder ac atgynyrchioldeb adolygiad 2001 o'r BS7766: "Assessment of the potential for metallic materials to affect adversely the quality of water intended for human consumption".	WRc-NSF
	Darparu cyngor arbenigol ar gyfer ymchwil Ewropeaidd a gweithgarwch safoni Cefnogi cyfraniad rheoliadol i'r Cynllun Derbyn Ewropeaidd (EAS) ar gyfer cynnyrch adeiladu mewn cysylltiad â dŵr yfed, ac mae ymchwil ar waith i ddatblygu system 'Rhestr gadarnhaol' ar gyfer cymeradwyo cynnyrch o dan yr EAS.	WRc-NSF
	Datblygu dulliau prawf ar gyfer y Cynllun Derbyn Ewropeaidd Cefnogi cysylltiad y DU mewn prosiect fframwaith V gan yr UE sy'n datblygu profion ar gyfer effeithiau sytotocsig, y potensial i gefnogi tyfiant microbig, a sgrinio am ddifwynwyr annisgwyl mewn cynnyrch adeiladu sy'n dod i gysylltiad â dŵr yfed.	WRc-NSF a The Water Quality Centre
Peryglon eraill i iechyd a Monitro	**Monitro cywirdeb prosesau pilen gwasgedd isel i drin dŵr yfed.** Cydweithio gyda AWWARF i fesur y defnydd o dechnegau monitro dyfeisgar. Mae adolygiadau wedi eu cwblhau ac astudiaethau maes ar waith mewn gweithfeydd trin dŵr yn yr Unol Daleithiau.	American Water Works Association Research Foundation (AWWARF)
	Profi perfformiad dull dadansoddol ar gyfer steroidau estrogen Mae treialon rhyng-labordy ar waith ac os yn llwyddiannus, caiff y dull ei gyhoeddi gan Asiantaeth yr Amgylchedd yng nghyfres cyhoeddiadau y 'Standing Committee of Analysts'.	LGC (Teddington)
	Cefnogaeth am adolygiad o ganllawiau'r WHO ar gyfer dŵr yfed Mae'r contractwr wedi parhau i ddarparu cyngor gwenwynegol ar faterion sy'n codi yng nghyfarfodydd adolygu y WHO.	Metcalf & Eddy
Cyflenwad Dŵr o fewn Cartrefi Defnyddwyr	**Adolygiad o blaid ac yn erbyn storio dŵr yfed o fewn cartrefi** Mae'r DU wedi gofyn erioed am fodd o storio o fewn cartrefi. O fewn tir mawr Ewrop, yr arfer yw cyflenwi pob tap o fewn y cartre gyda chyflenwad â phwysedd dŵr pibell. Bydd y prosiect hwn yn adolygu'r effeithiau ar gost, ansawdd dŵr ac agweddau gweithredol parhau i gadw'r angen am storio.	Binnie, Black & Veatch
	Asesiad o effaith dyfeisiadau trin mewnol ar ansawdd cyflenwadau dŵr cyhoeddus Defnyddir systemau hidlo yn aml gan ddefnyddwyr i wella ansawdd esthetig dŵr. Bydd yr astudiaeth yma'n archwilio a yw hidlwyr jwg yn achosi unrhyw ddirywiad yn ansawdd y dŵr a gyflenwir gan gwmnïau dŵr.	WRc-NSF

E Rheoliadau *Cryptosporidium*

- **Yn dilyn achosion difrifol o cryptosporidiosis mewn perthynas â dŵr yn Torbay yn 1995 a Gogledd Llundain a Swydd Hertford yn 1997, cyflwynwyd Rheoliadau newydd yn 1999 i sicrhau bod dŵr yfed yn cael ei drin mewn modd a fyddai'n gwaredu öosystau *Cryptosporidium*.**

Y Rheoliadau

- Daeth y Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) (Cywiriad) 1999 (Rheoliadau 1999) i rym ar 30 Mehefin 1999. Yng Nghymru, ymgorfforwyd rhain yn y Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2001 newydd.
- Mae Rheoliadau 1999 yn gosod safon triniaeth ar gyfartaledd o lai na un öosyst i bob 10 litr o ddŵr a gyflenwir gan weithfeydd trin. Nid yw'r safon yn cymryd y gwahanol rhywogaethau o *Cryptosporidium* i ystyriaeth nac ychwaith y ffaith y gall fod unrhyw un o'r öosystau a gaiff eu canfod yn hyfyw, hynny yw'n fyw ac yn abl i achosi heintiad.
- Mae hi'n drosedd i dorri'r safon, wedi amddiffyniad gan y cwmni ei fod wedi cymryd pob cam posib ac wedi dangos ymroddiad i geisio osgoi cyflawni'r drosedd.
- Mae'r Rheoliadau yn nodi bod rhaid samplo dim llai na 40 litr yr awr o ddŵr wedi ei drin sydd i'w gyflenwi i bob safle lle 'roedd risg sylweddol o dorri'r safon. Mae'r Rheoliadau hefyd yn nodi'r amodau sy'n rhaid cadw atyn nhw ynglŷn â chasglu a dadansoddi'r samplau a gymerir, a chofnodi'r canlyniadau. Mae'n drosedd i beidio cadw at yr amodau hyn.

Gweithredu'r Rheoliadau

- 'Roedd gofyn i bob un o'r cwmnïau dŵr gynnal asesiad risg ar bob un o'u gweithfeydd trin dŵr erbyn 30 Medi 1999. Rhaid i weithfeydd newydd gael eu hasesu cyn iddyn nhw fedru cael eu defnyddio. Cyflwynwyd arweiniad ar asesiad risg gyda Rheoliadau 1999 a gellir ei weld ar wefan yr Arolygiaeth.
- 'Roedd yr arweiniad yn cyfeirio at ffactorau sy'n cyfrannu tuag at asesu risg sylweddol h.y. ansawdd y dŵr ffynhonnell; y crynhoad; a oedd yn golygu tyniad uniongyrchol neu dyniad o afon neu ffrwd wedi ei storio am lai na saith diwrnod; unrhyw dystiolaeth o gysylltiad dŵr wyneb cyflym i ddyfrhaen a ddefnyddiwyd at dyniad daearddŵr; y math o driniaeth a ddarparwyd; ac unrhyw hanes o achos anesboniadwy o cryptosporidiosis yn y gorffennol, lle na chymerwyd unrhyw gamau i rwystro hyn rhag digwydd eto. Gwiriwyd pob asesiad risg gan yr Arolygiaeth er mwyn penderfynu a oedd risg sywleddol o dorri'r safon.
- Nid yw galw sefyllfa yn un risg sylweddol yn awgrymu torri safon ond yn hytrach bod potensial yno i nifer o öosystau *Cryptosporidium* fod yn bresennol ar rhai adegau yn y dŵr sydd wedi ei drin.
- Mae'n rhaid i gwmnïau dŵr drin y dŵr er mwyn sicrhau ei fod yn cyrraedd y safon mewn unrhyw weithfeydd sydd mewn categori risg sylweddol. Mae'n rhaid hefyd iddyn nhw ddangos eu bod yn cydymffurfio trwy fonitro parhaus o'r dŵr sy'n gadael y gweithfeydd a chofnodi'r canlyniadau o'r dadansoddiad dyddiol i'r Arolygiaeth. Cychwynnwyd monitro safleoedd risg uchel ar 1 Ebrill 2000. Ymestynwyd y gwaith monitro hwn yn ddiweddarach i gynnwys gweithfeydd risg is, yn unol â rhaglen a gytunwyd gyda'r Arolygiaeth.
- Daeth yr asesiad risg cychwynnol o hyd i 44 o safleoedd risg sylweddol. O'r rhain, 'roedd 37 yn weithfeydd trin dŵr wyneb a saith yn dyniadau daearddŵr. Mae gofyn bod y prosesau trin yn y gweithfeydd hyn yn cael eu gweithredu a'u cynnal ar lefel briodol er mwyn cyrraedd y safon.

- Dewis arall yn hytrach na monitro parhaus yw bod cwmni dŵr yn gosod proses drin barhaus yn ei lle sy'n medru tynnu neu ddal unrhyw ronynnau sy'n fwy na un micron mewn diamedr. Yna mae'n rhaid i'r cwmni ddangos i'r Arolygiaeth effeithiolrwydd y broses. Mewn rhai achosion, mae gweithfeydd trin yn cael eu gadael neu mae'r ffynonellau yn cael eu cyfuno a'u trin mewn gweithfeydd eraill.

Rhaglenni Gwelliant

- Lle penderfynwyd bod gwaith trin dŵr yn risg sylweddol o dan Reoliadau 1999 neu fod y driniaeth gyfredol yn annigonol, cytunodd yr Arolygiaeth ar raglen welliant gyda'r cwmni dŵr ar gyfer gosod triniaeth briodol neu mewn rhai achosion sicrhau bod y ffynhonnell yn cael ei adael neu ei newid.
- Nes bod triniaeth newydd yn cael ei osod neu bod rhyw ddull gweithredu arall ar waith, annogir cwmnïau dŵr i fonitro dŵr wedi ei drin yn barhaus a chofnodi'r canlyniadau hyn i'r Arolygiaeth. Fodd bynnag, nid yw'r data yma wedi ei gynnwys yn y canlyniadau rheoliadol a gofnodir isod.
- Derbyniodd yr Arolygiaeth ymgymeriadau Rhan 19 gan Dŵr Cymru ar gyfer gwaredu öosystau *Cryptosporidium* o ddwy safle. Cwblhawyd y ddau gynllun yn ystod 2001.

Dadansoddi Samplau

- Mae'r protocol a gyhoeddwyd gyda Rheoliadau 1999 yn amlinellu'r anghenion am adnoddau labordy a'r dull dadansoddol sy'n rhaid ei ddefnyddio ar gyfer profi cymeradwyaeth. Dim ond mewn labordai sydd wedi eu cymeradwyo gan yr Arolygiaeth y gellid gwneud dadansoddiadau a gall rhain gael eu harchwilio ar unrhyw adeg, wedi rhybudd neu heb rhybudd.
- Rhaid i samplau gael eu dadansoddi o fewn tri diwrnod o'u cymryd, onibai bod cynnydd sylweddol wedi bod yng nghymylogrwydd y dŵr i'w samplo neu fod arwydd arall bod y nifer o öosystau *Cryptosporidium* sy'n bresennol yn y dŵr wedi cynyddu. Mewn achos o'r fath, rhaid cyflawni'r dadansoddiad o fewn diwrnod o gymryd y sampl.
- Mae rheolau llym ar gyfer pob agwedd o samplo a dadansoddi er mwyn darparu llwybr tystiolaeth addas rhag ofn y bydd rhaid i'r canlyniadau dadansoddol gael eu defnyddio fel tystiolaeth mewn Llys Barn. Gellir gweld manylion llawn ar y gweithdrefnau cymeradwy ar wefan yr Arolyigaeth.

Canlyniadau Samplau yn 2001

- Archwiliwyd pob pwynt samplo rheoliadol o leiaf unwaith yn ystod 2001.
- Cymerwyd 8,989 o samplau rheoliadol o 28 safle yng Nghymru. Nifer bach iawn o öosystau a ganfuwyd yn y 584 (6.50%) o samplau a gymerwyd o 20 (71%) safle.
- 'Roedd y rhan fwyaf o'r rhai a ganfuwyd rhwng 0.01 a 0.10 o öosystau i bob 10 litr. Ni dorrwyd y safon rheoliadol ar unrhyw safle yn ystod 2001. Nid yw'r Arolygiaeth yn ymwybodol o unrhyw achosion o cryptosporidiosis yn gysylltiedig â dŵr a gyflenwyd o'r gweithfeydd trin dŵr a nodwyd fel rhai risg sylweddol.
- Mae canlyniadau'r monitro yn dangos yn glir nad yw dŵr yfed wedi ei drin yn achos difrifol o ddinoethiad öosystau *Cryptosporidium* i'r boblogaeth.
- Mae'r safon trin a'r monitro parhaus am *Cryptosporidium* sy'n bodoli yng Nghymru a Lloegr yn unigryw yn y byd. Mae'r data helaeth a gesglir yn galluogi'r Arolygiaeth a'r diwydiant dŵr i ddangos i awdurdodau iechyd a defnyddwyr bod triniaeth dŵr sydd wedi ei reoli'n dda yn galluogi dŵr yfed i gyrraedd y safon trin ar gyfer *Cryptosporidium*.

F Cyngor Technegol ar Faterion, Polisïau a Safonau Dŵr Yfed

- **Rôl yr Arolygiaeth i ddarparu cyngor gwyddonol a pheirianyddol ar gyfer Llywodraeth Cynulliad Cymru (Llywodraeth y Cynulliad) ar faterion, polisïau a safonau dŵr yfed.**
- **Cysylltiad yr Arolygiaeth gyda chyrff Cenedlaethol, Ewropeaidd a Rhyngwladol a datblygiad safonau a chanllawiau ar gyfer ansawdd a thriniaeth dŵr yfed.**

Cyffredinol

- Mae gan staff yr Arolygiaeth brofiad ac arbenigedd helaeth mewn agweddau gwyddonol a pheirianyddol cyflenwadau dŵr yfed, gan gynnwys triniaeth, dosbarthiad, samplo a dadansoddiad a materion yn ymwneud ag ansawdd.
- Mae hyn yn galluogi'r Arolygiaeth i ddarparu cyngor technegol i adrannau polisi Llywodraeth Y Cynulliad ar ystod eang o faterion yn ymwneud â dŵr yfed. Mae hyn hefyd yn galluogi'r Arolygiaeth i gynrychioli Llywodraeth Y Cynulliad yn gyffredinol mewn cyrff cenedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol.
- Ategir cyngor yr Arolygiaeth gan ei reolaeth o raglen ymchwil sylweddol ar faterion dŵr yfed a materion cyffelyb.

Cyflenwadau Dŵr Preifat

- Mae'r Arolygiaeth yn darparu cyngor ar drawsosod Cyfarwyddyd newydd y CE 98/83/EC i mewn i'r Rheoliadau newydd mewn perthynas â chyflenwadau dŵr preifat, yn ogystal â rhoi arweiniad i gynorthwyo awdurdodau lleol wrth weithredu'r Rheoliadau newydd.
- Daw cyngor yr Arolygiaeth o'i brofiad mewn cynghori awdurdodau lleol a defnyddwyr ar reoliadau ac answawdd cyflenwadau dŵr preifat, yn ogystal â'i ddealltwriaeth o faterion technegol.
- Cyhoeddodd yr 'WRc', dan gontract i'r Arolygiaeth, lyfr *Manual on Treatment for Small Water Supply Systems* yn ystod 2001. Mae hwn yn cynnwys cyngor ynglŷn â dewis ffynhonnell, asesiad risg, diogelu a monitro a phrosesau trin dŵr. Mae'r llyfr ar gael o'r WRc.

Rheoleiddio Gosodiadau Defnyddwyr

- Mae'r Arolygiaeth yn darparu cyngor technegol i adrannau polisi ac yn cynrychioli adrannau polisi DEFRA a Llywodraeth Y Cynulliad ar faterion yn ymwneud â Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999. Mae hefyd yn darparu cyngor ar faterion diogelu yn erbyn heintiad dŵr a gyflenwir a chadwraeth dŵr.
- Mae gan yr Arolygiaeth ddiddordeb arbennig mewn diogelu'r system gyflenwi dŵr cyhoeddus yn erbyn heintiad drwy ôl-lifiad oddi wrth ddefnyddwyr a gosodiadau eraill.
- Mae'r Arolygiaeth yn parhau i ddarparu cyngor i'r Pwyllgor Ymgynghorol Rheoliadau Dŵr, cwmnïau dŵr, gwneuthurwyr, mudiadau masnach a defnyddwyr ar weithredu'r Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ffitiadau Dŵr), defnyddio'r Ddogfen Arweiniad berthnasol ac unrhyw faterion eraill cysylltiedig.

Cynrychiolaeth mewn Cyrff Cenedlaethol a Rhyngwladol

- Cydnabyddir sawl aelod o staff yr Arolygiaeth fel arbenigwyr cenedlaethol neu ryngwladol ym maes triniaeth, dosbarthiad, ansawdd a rheoleiddiad dŵr yfed. Maent yn cynrychioli Llywodraeth Y Cynulliad ar ystod eang o gyrff cenedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol a'u pwyllgorau.
- Mae'r cyrff hyn yn cynnwys y canlynol:
  - Pwyllgor Ymgynghorol Rheoliadau Dŵr
  - Pwyllgor Sefydlog Dadansoddwyr
  - Pwyllgor Ymgynghorol Gwasanaeth Labordy Iechyd Cyhoeddus ar Ddŵr a'r Amgylchedd
  - Sefydliad Safonau Prydeinig – sawl grŵp gwaith
  - Pwyllgor Ewropeaidd dros Safoni – sawl grŵp gwaith
  - Rhwydwaith anffurfiol Rheoleiddwyr Dŵr Yfed Ewropeaidd
  - Cymdeithas Ddŵr Rhyngwladol – sawl pwyllgor
  - 'OECD' Grŵp Biotechnoleg a Gweithgarwch Iechyd
  - 'EPSRC' Grŵp Rheoli Ymchwil Dŵr
  - 'DG' Grŵp Rheoleiddio Mentrau Cynnyrch Adeiladu – Dŵr yfed
  - 'CIRIA' Panel Ymgynghorol Peirianneg Dŵr
- Gellir gweld rhestr llawn o'r grwpiau a'r pwyllgorau y mae'r Arolygiaeth yn rhan ohonyn nhw ar y wefan.

FF Cynnyrch a Phrosesau yn Narpariaeth Cyflenwadau Dŵr

- **Mae'r Arolygiaeth, ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn darparu ar gyfer cymeradwyo sylwedd, cynnyrch a phrosesau a ddefnyddir wrth ddarparu cyflenwadau dŵr cyhoeddus o dan Reoliadau 25-28, Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) 1989.**
- **Mae'r Pwyllgor ar Gynnyrch a Phrosesau i'w defnyddio mewn cyflenwad Dŵr Cyhoeddus (Y Pwyllgor) yn cynghori'r Awdurdodau ar y materion hyn.**

Y Pwyllgor ar Gynnyrch a Phrosesau

- Mae'r Pwyllgor ar Gynnyrch a Phrosesau yn gorff cyhoeddus ymgynghorol. Mae iddo chwech aelod sy'n cynnwys Cadeirydd, aelodau gydag arbenigedd mewn peirianneg, gwyddoniaeth defnyddiau, gwenwyneg a thriniaeth dŵr yn ogystal ag aelod lleyg sy'n cynrychioli budd y defnyddiwr dŵr. Mae'r Pwyllgor yn derbyn cefnogaeth dechnegol a gweinyddol gan yr Arolygiaeth.

Y Cynllun Cymeradwyo Statudol

- Pwrpas y cynllun yw sicrhau nad yw cemegion a defnyddiau adeiladu yn cael effaith niweidiol ar ansawdd dŵr. Argymhellir cynnyrch ar gyfer eu cymeradwyo os ystyrir hwy, yn ôl y dystiolaeth sydd ar gael ar yr amser hwnnw, i fod yn ddi-fai o safbwynt iechyd.
- Cymeradwyir cynnyrch ar gyfer pwrpas Rheoliad 25 yn unig. Nid yw hyn yn arwydd o safon technegol y cynnyrch.

Yr hyn a gymeradwywyd yn 2001

- Cyfarfu'r Pwyllgor ar chwech achlysur yn 2001 ac ystyriwyd 71 cais am gymeradwyaeth gan gynnwys 36 cais newydd.
- Cymeradwyodd yr Awdurdodau 27 cynnyrch a gwrthodwyd cymeradwyo un.
- Cymeradwyodd yr Awdurdodau hefyd y newidiadau i amodau tri cynnyrch oedd wedi eu rhestru'n barod.
- Mae rhestr o'r holl gynnyrch cymeradwy, sydd wedi ei gyhoeddi ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn cynnwys popeth sydd wedi ei gymeradwyo'n gyfredol a all gael ei ddefnyddio yn y cyflenwad dŵr cyhoeddus. Gellir gweld y rhestr ar y wefan: www.dwi.gov.uk
- Cymeradwywyd y cynnyrch a restrir o dan reoliad 25(1)(a) rhwng 1 Medi 1989 a 31 Rhagfyr 2001.
- Ni restrir y cynnyrch hynny sy'n destun BS EN, oherwydd gellir defnyddio rhain heb gymeradwyaeth Awdurdodau'r Llywodraeth, a bwrw bod yr amodau cenedlaethol ar gyfer eu defnyddio'n cael eu dilyn (gweler Dylanwad Mesurau Ewropeaidd).

Dylanwad Mesurau Ewropeaidd

- Un o brif amcanion cynllun marchnad sengl yr Undeb Ewropeaidd yw cael gwared ar y rhwystrau technegol i fasnachu. Mae mesurau cytun yn cael eu datblygu gan y Sefydliad Mesurau Ewropeaidd (CEN) dan ddeddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd.

- Un o amcanion y mesurau hyn yw cael gwared ar y rhwystrau technegol i fasnachu o ganlyniad i brofi cenedlaethol a gwirio anghenion. Fel canlyniad i gyhoeddiad y Mesurau Ewropeaidd (BS EN) ar gyfer cemegau trin dŵr yfed, gellir defnyddio cynnyrch sy'n cydymffurfio i BS EN heb gymeradwyaeth Awdurdodau'r Llywodraeth, a bwrw bod yr amodau cenedlaethol ar gyfer eu defnyddio'n cael eu dilyn.
- O ran cynnyrch adeiladu sy'n cael eu defnyddio mewn cysylltiad â dŵr yfed mae'r 'DG Enterprise Regulatory Group – Construction Products Drinking Water', yn datblygu y Cynllun Derbyn Ewropeaidd ar gyfer cynnyrch adeiladu mewn cysylltiad â dŵr yfed. Bydd hyn yn arwain at sefydlu trefniadau cytun ar gyfer profi ac ardystio cynnyrch adeiladu sy'n cael eu defnyddio mewn cysylltiad â dŵr yfed.
- Yn y cyfamser, bydd y Pwyllgor yn parhau i ystyried canlyniadau profion tebyg a gesglir o gyrff cymeradwyo mewn gwledydd eraill. Fodd bynnag, bydd rhaid i ymgeiswyr gyflwyno copïau o fraslun a chanlyniadau'r profion; ni dderbynnir tystysgrifau prawf yn unig.
- Mae gwybodaeth ar systemau cymeradwyo yn yr UE ac mewn gwledydd EFTA i'w gael mewn adroddiad a gomisiynwyd gan yr Arolygiad o dan y teitl 'European Approval Systems – Effects of Materials on Water Quality' 2nd Edition (ISBN 1 898920 427). Ar gael gan WRc Publications Ltd. Ffôn: 01793 865138.

Labordai Penodedig

- Yn ystod 2001, parhaodd LGC (Teddington) Ltd a'r Ganolfan Ansawdd Dŵr yn Reading â'u rôl fel labordai penodedig ar gyfer dadansoddiad yn gysylltiedig â cheisiadau am gymeradwyaeth.

Adolygiad o Newidiadau Rheoliadol yn 2001

Epocsi-resin

- Cyflwynwyd newidiadau i delerau cymeradwyaeth ar gyfer epocsi-resin *in-situ* a ddefnyddiwyd ar 1 Rhagfyr 2001. 'Roedd y newidadau, a gyflwynwyd yn Rheoliad 25 Llythyr 5/2001 yn gofyn am oddefiad llymach yn y gymhareb resin i galedydd ac yn gofyn am yr angen i ddilyn y gofynion gweithredol a gyflwynir yn '*In-situ* Epoxy Resin Lining – Operational Requirements and Code of Practice 3rd Edition'.

Anghenion Archwiliad

- 'Roedd Rheoliad 25 Llythyr 6/2001 yn hysbysu'r rhai hynny wedi eu cymeradwyo o'r bwriad i gyflwyno archwiliad ar gynnyrch cymeradwy. Yn dilyn hyn mae'r Arolygiaeth wedi rhoi contract i WRc-NSF i wneud yr arolwg a'r samplo sy'n gysytlliedig â gofynion yr archwiliad. Cynigir gweithredu anghenion archwiliad yn 2002.

Defnyddio cynnyrch dur gloyw

- Daeth gwaharddiad ar ddefnydd anghymeradwy o ddeunyddiau mewn cysylltiad â dŵr mewn pibellau cyflenwi dŵr, cronfeydd gwasanaeth a thyrrau dŵr i rym ar 1 Hydref 2000. Arweiniodd hyn at yr angen i gyflenwyr gael cymeradwyaeth am gynnyrch a oedd cyn hynny wedi bod yn gymwys ar gyfer defnydd anghymeradwy.
- Cyflwynodd Rheoliad 25 Llythyr 7/2001 drefniadau ar gyfer cymeradwyo'r defnydd o gynnyrch dur gloyw, cyd â bod y cynnyrch yn cael ei wneud o ddur gloyw o safon arbennig a'u bod yn dilyn y Côd Ymarfer ar osod, a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Dur Gloyw Prydain.

Gellir gweld copïau o lythyrau Rheoliad 25 a gyfeirir atynt uchod ar y wefan www.dwi.gov.uk/cpp/index.htm.

G Rheoliadau Newydd a Rhaglenni Gwaith Cysylltiedig

- **Cyflwynodd y Cyfarwyddyd CE ar Ansawdd Dŵr i'w yfed gan bobl (98/83/EC) anghenion newydd am fonitro a safonau dŵr yfed.**
- **Trawsosodwyd anghenion y Cyfarwyddyd oedd yn ymwneud â chyflenwadau dŵr cyhoeddus gan ymgymerwyr dŵr a'u hardaloedd cyflenwi yn bennaf neu'n gyfangwbl yng Nghymru yn ddeddf genedlaethol gan Reoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2001.**
- **Mae'r Rheoliadau newydd yma'n gofyn i gwmnïau dŵr weithredu monitro newidiol ar gyfer y safonau newydd a diwygiedig yn ystod 2002 a 2003.**
- **Mae gan y Cwmnïau Dŵr raglenni gwaith i sicrhau bod cyflenwadau dŵr yn cyrraedd anghenion y safonau a ddaw i rym ar 25 Rhagfyr 2003.**

Rheoliadau Ansawdd Dŵr Yfed

❑ Daeth y Cyfarwyddyd CE ar Ansawdd Dŵr i'w yfed gan bobl i rym ar 25 Rhagfyr 1998. Mae'n gosod safonau newydd a rhai diwygiedig am nifer o baramedrau, sydd wedi eu cynnwys yn Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) 2001 (Rheoliadau 2001), sy'n berthnasol i gwmnïau dŵr â'u hardaloedd cyflenwi yn bennaf neu'n gyfangwbl yng Nghymru. Daw y mwyafrif o'r Rheoliadau newydd, sy'n berthnasol i gyflenwadau dŵr cyhoeddus, i rym ar 25 Rhagfyr 2003. Fodd bynnag, daeth rhai rhannau o'r Rheoliadau, nad ydynt yn perthyn yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddyd newydd, i rym ar 1 Ionawr 2002

❑ Mae'r Rheoliadau newydd yn gofyn ar i gwmnïau dŵr fonitro yn erbyn safonau arfaethedig newydd ar gyfer chwe paramedr newydd. Rhestrir y paramedrau hyn yn 'Tabl 1' isod.

Tabl 1

Paramedr	Safon newydd i'w weithredu 25.12.2003	Sylwadau
Bensen	1.0 µg/l	
Bromad	10.0 µg/l	
1,2 dichloroethane	3.0 µg/l	
Enterococci	0/100 ml	Angen newydd i'w fonitro
Clostridium perfringens	0/100ml	
Nitraid	0.1 mg/l	Mae'r safon newydd i'w weithredu mewn gweithfeydd trin dŵr

❑ Mae'n ofynnol hefyd i gwmnïau dŵr fonitro yn erbyn safonau arfaethedig llymach ar gyfer naw paramedr a gynhwysir yn y Rheoliadau Cyflenwad Dŵr (Ansawdd Dŵr) 1989 presennol. Mae'r safonau sy'n bodoli yn parhau i fod mewn grym hyd at 25 Rhagfyr 2003.

Tabl 2

Paramedr	Safon sy'n bodoli o fewn Rheoliadau 1989	Safon newydd i'w weithredu 25.12.2003	Sylwadau
Antimoni	10.0 µg/l	5.0 µg/l	
Arsenig	50.0 µg/l	10.0 µg/l	
Boron	2.0 mg/l	1.0 mg/l	
Copr	3.0 mg/l	2.0 mg/l	
Plwm	50.0 µg/l	25.0 µg/l	Bydd safon terfynol o 10 µg/l yn weithredol o 25.12.2013
Nicel	50.0 µg/l	20.0 µg/l	
Hydrocarbonau Polysyclig Aromatig (PAHs)	0.2 µg/l	0.1µg/l	Nid yw'r safon newydd yn cynnwys fluoranthene a benzo 3,4 pyrene
Tetracloroethen	10.0 µg/l	10.0 µg/l	Mae'r safon newydd yn berthnasol i gyfanswm y ddau sylwedd
Tricloroethen	30.0 µg/l		

Mae'r safon newydd ar gyfer PAH yn berthnasol i gyfanswm y pedwar sylwedd yn hytrach na'r chwe sylwedd a nodwyd yn Rheoliadau 1989.

Rhaglenni gwaith

- Mae Rheoliad 41 o Reoliadau 2001 yn gofyn i gwmnïau dŵr gynnig rhaglenni gwaith, i gael eu cyflwyno am gymeradwyaeth ddim hwyrach na 31 Mawrth 2002, i gyrraedd gofynion y safonau newydd a diwygiedig a ddaw i rym 25 Rhagfyr 2003.
- Mae datganiadau o fwriad a rhaglenni gwaith cysylltiedig i gyrraedd y safonau newydd a diwygiedig eisoes wedi eu cymeradwyo gan yr Arolygiaeth, ac yn cael eu gweithredu gan gwmnïau dŵr.
- Bydd yr Arolygiaeth yn monitro datblygiad gweithredu'r rhaglenni ac yn cynnal archwiliadau rheolaeth ar gynlluniau unigol. Gwneir newidiadau i weithredu a dyddiadau cwblhau, os oes angen. Hyd yn hyn mae'r datblygiad wedi bod yn foddhaol, ac mae pob un o'r rhaglenni yn debygol o gyrraedd eu targed cwblhau cyn y daw'r safonau newydd i rym.
- Mae manylion y rhaglenni, gan gynwys sefyllfa'r datblygiad hyd yn hyn, ar gael gan y cwmnïau dŵr neu'r Arolygiaeth.

Canlyniadau Monitro yn 2001

- Ar gyfer 2001, gofynnodd yr Arolygiaeth i gwmnïau dŵr yng Nghymru gymryd samplau am y chwe gwerth parametrig newydd (bensen, bromad, 1,2 dichloroethane, nitraid cyn weithfeydd trin dŵr, *Clostridium perfringens* a Enterococci). Pwrpas hyn oedd gweld lle efallai y byddai angen rhaglenni gwelliant pellach er mwyn cyrraedd anghenion y Cyfarwyddyd. Dylid nodi, oherwydd na chymerwyd samplau mor aml ac y nodwyd yn y Cyfarwyddyd, na ddylid dehongli'r canlyniadau yn Nhabl 3 isod fel canran cydymffurfiaeth ar hyn o bryd.
- Mae rhaglenni gwelliant ar waith ym mhob lleoliad er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r safon bromad.
- Mae monitro ar gyfer y paramedrau newydd yn parhau trwy gydol 2002.

Tabl 3

Paramedr	Nifer o samplau a gymerwyd	Gwerth Parametrig	Nifer o samplau oedd yn fwy na'r gwerthoedd parametrig (% samplau)
Bensen	997	1.0 µg/l	2 (0.03)
Bromad	1,035	10.0 µg/l	158 (1.82)
1,2 dichloroethane	977	3.0 µg/l	0 (0.00)
Nitraid (cyn weithfeydd trin dŵr)	2,101	0.1 mg/l	20 (0.07)
Clostridium perfringens	895	0/100 ml	23 (0.50)
Enterococci	751	0/100 ml	21 (0.23)

❑ Dadansoddwyd data cydymffurfio yn erbyn y safonau oedd yn bodoli ar gyfer 2001 er mwyn dangos cydymffurfiaeth yn erbyn y gwerthoedd parametrig diwygiedig yng Nghyfarwyddyd 98/83/EC. Dangosir y canlyniadau yn Nhabl 4 isod. Mae cymhariaethau cydymffurfiaeth cywir yn bosib ar gyfer plwm, copr a PAH ond mae rhai samplau o baramedrau eraill wedi eu cymryd mewn pwyntiau cyflenwi felly gellir ond dyfalu cydymffurfiaeth tan i'r parthau cyflenwi dŵr newydd gael eu hamlinellu.

Table 4

Paramedr	Nifer o samplau a gymerwyd	Gwerth paramedrig cyfredol	Nifer o samplau oedd yn fwy na'r gwerth paramedrig cyfredol	Gwerth paramedrig newydd	Nifer o samplau oedd yn fwy na'r gwerth paramedrig newydd
Antimoni	213	10.0 µg/l	0	5.0 µg/l	1
Arsenig	202	50.0 µg/l	0	10.0 µg/l	57
Boron	202	2.0 mg/l	0	1.0 mg/l	0
Copr	208	3.0 mg/l	1	2.0 mg/l	5
Plwm	1,324	50.0 µg/l	10	25 µg/l	16
Nicel	203	50.0 µg/l	0	20 µg/l	10
PAH	1,055	0.2 µg/l	35	0.10 µg/l	4
Tetracloroethen	383	30.0 µg/l	1	10 µg/l	35
Tricloroethen		10.0 µg/l			

❑ Mae'r canlyniadau ar gyfer plwm yn dangos effeithiau mesurau rheoli toddiant plwm sydd yn eu lle i hyrwyddo cydymffurfiad gyda'r safon newydd o 25µg/l erbyn 2003.

❑ Mae gwaredu fluoranthene o'r paramedr PAH yn golygu cynnydd mawr yn y gydymffurfiaeth gyda'r paramedr hwn. Mae rhaglenni gwelliant yn eu lle eisoes ar gyfer methiant toddyddion clorinedig.